# Gwella ansawdd a chysondeb cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal

## Darganfyddiadau o weithdy cynnwys y cyhoedd yng nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Roedd Cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cynnwys gweithdy lle y gallai pobl drafod ffyrdd i wella gwaith cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gan ddefnyddio Safonau'r DU. Mynychodd dros 80 o bobl y gweithdy un-awr i siarad am sut i wella gwaith cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil. Rhannodd y mynychwyr eu meddyliau a'u profiadau o ddefnyddio'r Safonau a thrafod yr hyn y bydden nhw'n ei wneud yn wahanol yn y dyfodol.








Mae'r wybodaeth isod wedi'i threfnu mewn themâu wedi'u seilio ar y Safonau. Mae'n rhoi trosolwg o sut y gallwch chi fabwysiadu'r Safonau yn eich gwaith gyda chefnogaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac mae'n cynnwys dolenni i adnoddau ychwanegol lle ceir rhagor o wybodaeth drylwyr.

Os ydych chi eisiau gwybodaeth fanylach, cysylltwch â research-involvement@wales.nhs.uk.

## Cyfleoedd cynhwysol

Gwnewch yn siŵr bod cyfleoedd cynnwys y cyhoedd yn hygyrch ac yn cyrraedd y bobl a'r grwpiau sy'n berthnasol i anghenion yr ymchwil. I sicrhau bod modd cynnwys pawb mewn ymchwil, mae'n bwysig chwalu rhwystrau. Gallai rhai ffyrdd i wneud ymchwil yn fwy cynhwysol gynnwys:

- Cynnig amrywiaeth o opsiynau o ran ffyrdd y gellir cynnwys pobl, fel cyfarfodydd yn y cnawd, arolygon ar-lein neu grwpiau ffocws.

- Darparu ar gyfer pobl ag anableddau, fel deunyddiau a lleoliadau hygyrch.

- Bod yn sensitif i wahaniaethau diwylliannol a cheisio gwneud ymchwil yn berthnasol a hygyrch i grwpiau amrywiol.

- Bod yn hyblyg ac yn barod i addasu'r ffordd o gynnal ymchwil i ddiwallu anghenion y gymuned yn well.

## Cydweithio

I gydweithio'n effeithiol, mae'n bwysig gwerthfawrogi cyfraniadau pawb sy'n cymryd rhan. Mae hyn yn galw am feithrin a chynnal perthnasoedd cynhyrchiol, llawn parch â'ch gilydd. Mae yna ffyrdd gwahanol i gynnwys aelodau'r cyhoedd mewn ymchwil.

- Cynnwys aelodau'r cyhoedd mewn ymchwil mewn ffyrdd amrywiol, fel ymgynghoriadau unwaith ac am byth, cydweithredu yn ystod gwahanol gyfnodau'r cylch ymchwil neu bartneriaeth gyfartal ym mhob agwedd o'r ymchwil.

- Rydyn ni'n cynnig adnoddau a hyfforddiant i gefnogi gwaith cynnwys y cyhoedd, gan gynnwys canllawiau, rhestrau gwirio, crynodebau mewn iaith glir, adroddiadau a hyfforddiant rhyngweithiol ar arferion gorau, gan gynnwys rhedeg grwpiau ffocws, gweithdai a mwy.

## Cefnogi a dysgu

I helpu aelodau'r cyhoedd i deimlo'n hyderus ac yn alluog yn y rhan y maen nhw'n ei chwarae mewn ymchwil, mae'n bwysig rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddysgu a thyfu. Gall hyn alw am gynnig cefnogaeth a hyfforddiant ar amrywiaeth o ffurfiau, fel gweithdai, gweminarau neu hyfforddiant un-i-un. Helpwch bobl i gael eu cynnwys mewn ymchwil trwy gynnig adnoddau a chefnogaeth i'w helpu i fagu hyder a sgiliau. Chwalwch unrhyw rwystrau a allai eu hatal rhag cymryd rhan.

Mae ein rhaglenni hyfforddi a chefnogi'n helpu pobl i:

- Ddysgu am ymchwil.
- Trin sgyrsiau anodd.
- Cymryd rhan mewn trafodaethau mewn grŵp.
- Deall tystiolaeth glinigol (gwybodaeth o astudiaethau ymchwil).

## Llywodraethu

Mae cynnwys aelodau'r cyhoedd mewn rheoli ymchwil, ei rheoleiddio, arwain a gwneud penderfyniadau'n golygu rhoi rôl iddyn nhw mewn llunio cyfeiriad a deilliannau prosiectau ymchwil. Gall hyn alw am adael iddyn nhw ddweud eu dweud ynglŷn â phenderfyniadau allweddol, fel yr hyn y dylai'r cwestiynau ymchwil ei archwilio, sut i ddylunio a chynnal astudiaeth a sut i ddefnyddio a lledaenu'r canlyniadau. Mae cynnwys aelodau'r cyhoedd mewn llywodraethu ymchwil yn gallu gwella tryloywder.

- Gall cynnwys y cyhoedd gefnogi fframwaith strategol ymchwil trwy ddatblygu canllawiau, hybu tryloywder a meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd.
- Gall cynnwys mewn grwpiau olygu bod cefnogwyr a mentoriaid ar gael i aelodau newydd, dibrofiad o'r cyhoedd.

## Cyfathrebu

Gellir cyfathrebu â chynulleidfa ehangach mewn nifer o ffyrdd. Mae'n bwysig bod yn onest, yn agored ac yn glir wrth gyfathrebu. Cydweithiwch ag aelodau'r cyhoedd i nodi'r ffordd orau i gyfathrebu a byddwch yn ymatebol ac yn agored i sgwrsio.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n gallu helpu trwy ddarparu:

- Offerynnau i helpu i nodi arddulliau a dulliau cyfathrebu.
- Astudiaethau achos a chyfleoedd i ddysgu.
- Cyngor a chyfarwyddyd i aelodau'r cyhoedd sy'n cael eu cynnwys mewn gweithgareddau ymchwil.

## Effaith

Mae gwerthuso effaith cynnwys y cyhoedd a rhannu'r canlyniadau'n gallu helpu ymchwilwyr ac eraill i ddeall sut y mae cynnwys aelodau'r cyhoedd mewn ymchwil yn gallu arwain at welliannau. I wella gwaith cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil, mae'n bwysig mesur ei effaith a rhannu'r canlyniadau.

- Gall hyn helpu i ddangos sut y mae cynnwys y cyhoedd wedi newid yr ymchwil a sut y mae wedi effeithio ar bobl.
- Mae offerynnau y gellir eu defnyddio i fesur effaith yn cynnwys Fframwaith Asesu Effaith Cynnwys y Cyhoedd (PiiAF) Canllawiau ar gyfer Adrodd Ymwneud â Chleifion a'r Rhestr Wirio 2 Gyhoeddus (GRIPP 2).

## Y cam nesaf:
## Camau gweithredu ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal

- Cynhyrchu pecyn cymorth sy'n dod yn adnodd cynhwysfawr ar gyfer yr holl gefnogaeth cynnwys y cyhoedd.

- Datblygu pecyn cefnogaeth ar gyfer y cyfarfod cychwynnol gydag ymchwilwyr ac aelodau'r cyhoedd.

- Datblygu hyfforddiant ychwanegol i gefnogi ymchwilwyr ac aelodau'r cyhoedd sy'n ymgymryd â chynnwys y cyhoedd.

- Cynnal sesiynau ymgysylltu, gan rannu'r gefnogaeth sydd ar gael ar y pryd i ymchwilwyr ac aelodau'r cyhoedd.

- Casglu astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer cynnwys aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys effaith cyfraniadau'r cyhoedd a sut y maen nhw wedi dylanwadu ar yr ymchwil.

## A oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy a hoffi cynyddu eich ymglymiad mewn ymchwil?

E-bostiwch ni yn uniongyrchol:
healthandcareresearch@wales.nhs.uk

Ewch i'n wefan I gael mynediad i adnoddau a chyfleoedd

I gael rhagor o wybodaeth ar sut i siapio ymchwil, gofynnwch am ein cylchlythyr Gwener wythnosol.

